

Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru'n** dwyn ynghyd waith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Ein diben yw sicrhau gwella, cynnal a defnyddio adnoddau naturiol Cymru'n gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol.

Croeso i'n seithfed newyddlen ni!

Mae llawer o gartrefi a busnesau'r Rhath, Pen-y-lan a Heol Casnewydd ym mherygl llifogydd Nant Lleucu a Rhymni. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio â phartneriaid a'r gymuned er mwyn cynllunio a chyflawni cynllun llifogydd.

Hoffai tîm Cynllun Llifogydd y Rhath ddymuno i chi Flwyddyn Newydd Dda. Amcana'r newyddlen hon roi gwybod i chi hynt y cynllun, yn ogystal â gwaith arall sy'n mynd rhagddo er mwyn wynebu perygl llifogydd yn yr ardal ehangach.

Cwmblau wal lifogydd Rhymni, cam cyntaf Cynllun Llifogydd y Rhath

Yn ein rhifyn Tachwedd / Rhagfyr o Newyddlen Cynllun Llifogydd y Rhath, rhoesom wybod bod cam cyntaf Cynllun Llifogydd y rhath wedi dechrau.



Aeiladu'r wal
lifogydd yn
Rhagfyr 2015

Golygai'r gwaith godi wal 150m o hyd hyd arglawdd Rhymni, ger Heol Casnewydd yn ne Caerdydd. Cwblhaodd ein contractwr, GBV, y gwaith yn Rhagfyr 2014. Mae'r wal lifogydd yn yn gwella safon diogelu 12 busnes lleol yn Ystâd Ddiwydiannol Pont Rhymni'n uniongyrchol, ac ardal ehangach Heol Casnewydd / Colchester Avenue pan adeilidir camau diweddarach y cynllun llifogydd.

Hoffem ddiolch i'r eiddo cyfagos am eu cefnogaeth a'u hamynedd tra gwnaed y gwaith hwn.



Wal lifogydd Rhymni
wedi'i chwblhau

Dylunio Cynllun Llifogydd y Rhath: y gwaith yn parhau

Rydym yn ddiolchgar iawn am yr holl adborth ynghylch y cynlluniau. Mae ein tîm dylunio wedi ystyried sylwadau ac adborth y rhai yr ymgynghorwyd â nhw, a'r gymuned, yn fanwl. Bu inni baratoi crynodeb o'r enw 'gofynasom, dywedasocho, gwnaethom', sydd ar gael ar ein gwefan. Mae'r tîm yn defnyddio'u hadborth i oleuo proses adolygu'r dyluniad.

Rydym wrthi'n cwblhau a chaboli'r dyluniad, ac yn cwblhau gwaith ar sawl un o'r dogfennau a fydd yn darparu gwybodaeth ategol ar gyfer cais cynllunio ar gyfer y cynllun.

Beth nesaf?

Rydym yn trefnu rhagor o arolygu cyflwr adeiladwaith waliau presennol glannau'r afon ger Heol Pen-y-lan, a chyflwr Pont Colchester Avenue, hefyd. Arfaethir hyn ar gyfer Chwefror 2015, a bydd o gymorth inni gaboli'r dymuniad.

Rydym yn paratoi ein Cais Cynllunio ar gyfer Cyngor Caerdydd, i'w gyflwyno yng ngwanwyn 2015.

Cynhaliwn arddangosfa gyhoeddus ddilynol a fydd yn dangos y cynlluniau cymeradwyedig, ac yn darparu rhagor o fanylion ynghylch gwaith adeiladu'r cynllun.

Adeilidir fesul cam, er mwyn lleihau'r amharu, gan ymgysylltu â'r gymuned gydol yr amser. Bwriedir dechrau'r gwaith yng ngaeaf 2015, a'i gwblhau yn 2017.

Cysylltwch â ni neu ymgofrestrwch ar gyfer newyddion:

Roath@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk